# Ffurflen Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (gan gynnwys y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol a'r Gymraeg)

This document is also available in English.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Enw'r Polisi neu'r Arfer** | Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol am Ddim i Ddisgyblion Conwy - Adolygiad o Holl Feini Prawf Dewisol gan gynnwys ymgynghoriad cyhoeddus. | | |
| **Swyddog Cyfrifol / Pennaeth Adran** (yn gyfrifol am y Polisi neu'r Arfer) | REDACTED | | |
| **Adran / Gwasanaeth:** | Rheoli Safleoedd Addysg | **Dyddiad Dechrau'r Asesiad** | 09/08/2023 |

| **Enw'r swyddog(ion) (a phartneriaid) sy'n cwblhau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb** | | |
|---|---|---|
| **Enw(au)** | **Teitl(au) y Swydd(i)** | **Llofnod(ion)** |
| REDACTED | Rheolwr Prosiect - Iechyd a Diogelwch, Cynllunio Rhag Argyfwng a Chludiant Ysgol | REDACTED |
| REDACTED | Rheolwr Strategol - Rheoli Eiddo a Safleoedd Addysg | REDACTED |

*Dylid ystyried cynnwys teitlau swyddi yn unig wrth gyhoeddi

| **Fersiwn y Ddogfen** | **Dyddiad Adolygu** | **Disgrifiad cryno o'r newidiadau** |
|---|---|---|
| | | |
| | | |

| **Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i Gymeradwyo gan Swyddog sy'n Gyfrifol / Pennaeth Adran / Gwasanaeth / Pwyllgor** | |
|---|---|
| **Dyddiad Cwblhau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb** | |
| **Enw** | REDACTED |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| | | |

| | |
|---|---|
| **Teitl Swydd** | Pennaeth Gwasanaethau Addysg |
| **Llofnod** | |

## Cyflwyniad

Mae’r ddogfen hon yn declyn aml-bwrpas sy’n sicrhau bod y camau priodol yn cael eu cymryd i gydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED) deddfwriaeth Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ac i arddangos ein bod wedi rhoi sylw dyledus i’r angen i leihau anghydraddoldebau o ran canlyniadau sy’n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol wrth wneud penderfyniadau strategol o dan y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol. Mae hefyd yn sicrhau y rhoddir ystyriaeth i Safonau’r Gymraeg.

Pan fyddwn yn cynllunio i gyflwyno polisi neu arfer newydd neu ddiwygio rhai presennol, gwneud newidiadau neu doriadau i wasanaeth neu wneud penderfyniadau strategol, mae gofyn i ni ystyried a fyddai’r penderfyniad yn cael effaith anghymesur ar bobl sy’n rhannu un neu fwy nodwedd a ddiogelir neu a fyddai’n creu anghydraddoldeb o ran canlyniadau sy’n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol. Os yw hynny’n debygol o fod yn wir, mae’n rhaid i ni gymryd camau priodol. Nid yw proses yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi’i llunio i’n hatal rhag gwneud pethau ond yn hytrach i sicrhau ein bod wedi ystyried yr effaith. Mae’n ein helpu i ganolbwyntio ar y camau gweithredu y gallwn eu cymryd i gael gwared ar a/neu i liniaru unrhyw effaith anghymesur neu wahaniaethol a chyflwyno mesurau i hyrwyddo cyfle cyfartal.

Er mwyn cydymffurfio â Dyletswydd Gyffredinol a’r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol, mae’n rhaid i ni roi ‘sylw dyledus’ (neu ystyried yr angen yn ymwybodol) i: gael gwared ar wahaniaethu, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin perthnasoedd da yn ogystal â’r angen i leihau anghydraddoldeb mewn canlyniadau sy’n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol. Po fwyaf yw’r perthnasedd a’r effaith bosibl, yr uchaf yw’r sylw sy’n ofynnol gan y ddyletswydd. Bydd y Ddyletswydd Gyffredinol yn fwy perthnasol i rai swyddogaethau nag eraill ac mae’n bosibl y byddant hefyd yn fwy perthnasol i rai nodweddion a ddiogelir nag eraill. Mae’n rhaid i’n dyletswydd gael ei harfer â llymder, meddwl agored a chael ei hystyried ar amser pan all wneud gwahaniaeth i’n penderfyniadau. Dylai polisïau sydd â pherthnasedd cryf, fel penderfyniadau cyllidebol strategol, rhaglenni gwneud grantiau, newidiadau i ddarpariaeth gwasanaeth (gan gynnwys tynnu gwasanaethau yn ôl neu eu haildrefnu), a pholisïau recriwtio neu dâl bob amser fod yn destun asesiad o effaith. Am ganllawiau pellach gweler Canllawiau Asesu Effaith y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC). Ni allwn ddirprwyo ein dyletswydd i gydymffurfio â’r ddeddfwriaeth hon.

Dylai'r ffurflen hon ddangos y camau a gymerwyd i gynnal yr asesiad gan gynnwys ymgysylltu / ymgynghori perthnasol, y wybodaeth a ystyriwyd, canlyniadau'r asesiad ac unrhyw benderfyniadau a gymerwyd mewn perthynas â'r canlyniadau hynny. Dylid cyhoeddi’r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb os yw’n dangos effaith sylweddol (neu debygol) ar ein gallu i gyflawni’r Ddyletswydd Gyffredinol.

**Manteision Cynnal AoEaG:**

- Cael gwell dealltwriaeth o’r unigolion hynny y gallai’r polisi neu’r arfer gael effaith arnynt.
- Diwallu gwahanol anghenion yn well a dod yn fwy hygyrch a chynhwysol.

- Galluogi cynllunio ar gyfer llwyddiant - nodi peryglon posib a chanlyniadau anfwriadol cyn i unrhyw ddifrod gael ei wneud.
- Galluogi gwell cynllunio a fydd yn golygu bod penderfyniadau'n rhai rhagweithiol yn hytrach na'n rhai ymatebol, gan osgoi gorfod dad-wneud penderfyniadau a allai arwain at oblygiadau o ran costau ac enw da.
- Dangos bod penderfyniadau yn cael eu hystyried yn drylwyr a'u bod wedi cymryd barn y rheiny yr effeithir arnynt i ystyriaeth.
- Ein galluogi i reoli disgwyliadau drwy esbonio'r cyfyngiadau yr ydym yn gweithio o'u mewn (e.e. cyllideb).
- Helpu osgoi a gwella canlyniadau i unigolion.
- Cael gwared ar arferion amhriodol neu niweidiol yn ogystal â gwahaniaethu sefydliadol.
- Sicrhau ein bod yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal a bod penderfyniadau yn cael eu gwneud i ddiogelu a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg.

Er bod y ddogfen hon yn ymddangos yn hir, yn ogystal â chamau angenrheidiol y broses, mae hefyd yn cynnwys nodiadau cyfarwyddyd yn y meysydd allweddol i'ch cynorthwyo i gynnal yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb. Mae dolenni cyswllt ychwanegol i fwy o wybodaeth wedi'u cynnwys i'ch cynorthwyo. Mae mwy o wybodaeth ar gael ar GIG/ CLlLC PSED/ EIA yma.

## Camau Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a Chydraddoldeb

Cam 1 – Nodi Prif Nodau ac Amcanion y Polisi neu'r Arfer
Cam 2 - Data, Ymgysylltu ac Asesu'r Effaith
Cam 3 – Caffael a Phartneriaethau
Cam 4 – Delio gydag Effaith Niweidiol neu Anghyfreithlon a Chryfhau'r Polisi neu'r Arfer
Cam 5 – Penderfyniad i Fwrw Ymlaen
Cam 6 – Camau Gweithredu a Threfniadau ar gyfer Monitro Canlyniadau ac Adolygu Data
Cam 7 - Cyhoeddi'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

## Nodyn Pwysig i Swyddog(ion) sy'n ei Gwblhau:

Mae'n bwysig bod yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb yn cael ei gwblhau wrth i'r polisi neu'r arfer gael ei ddatblygu fel bod canfyddiadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb yn cael eu defnyddio i ddylanwadu a siapio'r polisi neu'r arfer. Argymhellir ei fod yn cael ei gwblhau gan o leiaf y swyddog arweiniol sy'n gyfrifol am y polisi neu'r arfer, arbenigwr yn y pwnc dan sylw a chyfaill beirniadol, a bydd o leiaf un ohonynt wedi cwblhau hyfforddiant Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ffurfiol. Mae angen i'r ddogfen hon gael ei chyflwyno i'r gwneuthurwyr penderfyniadau ynghyd â'r polisi neu'r arfer ddrafft fel rhan o'r broses benderfynu.

Os ydych yn datblygu strategaeth neu gynllun lefel uchel nad yw'n cynnwys manylion digonol i ddangos sut y bydd yn effeithio ar unigolion neu grwpiau (h.y. lle bydd cynlluniau a chamau gweithredu yn eistedd o dan y strategaeth a fydd yn pennu hyn), dylech barhau i gynnal Asesiad o

Effaith ar Gydraddoldeb llawn. Efallai y bydd angen i chi hefyd gwblhau Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ychwanegol ar y cynlluniau a'r camau gweithredu sy'n eistedd o dan y strategaeth lefel uchel. Bydd hyn yn sicrhau eich bod yn dangos eich bod wedi rhoi ystyriaeth briodol i gydymffurfio â'r Ddyletswydd Gyffredinol, Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, Safonau'r Iaith Gymraeg a'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol.

Os yw eich polisi neu arfer yn deillio o gyfarwyddeb gan Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru neu Awdurdod Lleol, dylech barhau i asesu effaith hyn yn lleol er mwyn nodi unrhyw effaith wahaniaethol oherwydd gwahaniaeth lleol.

Dylech ystyried a oes digwyddiadau eraill, e.e. COVID-19, Brexit, Mae Bywydau Du o Bwys ac ati, wedi amlygu neu ddwysau anghydraddoldebau y mae angen mynd i'r afael â nhw wrth i chi weithio trwy'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb.

## CAM 1 – Nodi Prif Nodau ac Amcanion y Polisi neu'r Arfer

**1. Beth sy'n cael ei asesu?** (Cliciwch ddwywaith ar y blwch/blychau perthnasol (X) a dewiswch 'checked' fel sy'n briodol)

☒ Polisïau, ymarferion neu weithdrefnau newydd a diwygiedig (sy'n addasu arferion cyflogaeth neu ddarparu gwasanaeth)

☐ Cynigion i adolygu neu ad-drefnu gwasanaeth sy'n effeithio ar y gymuned a/neu staff, e.e. darpariaeth y blynyddoedd cynnar, gofal, addysg

☐ Cynigion effeithlonrwydd neu arbedion e.e. sy'n arwain at newid i gyfleusterau cymunedol, gweithgareddau, cefnogaeth neu gyfleoedd cyflogaeth

☐ Gosod dyraniadau cyllidebol ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd a chynllunio ariannol strategol

☐ Penderfyniadau yn effeithio ar ddefnyddwyr gwasanaeth, gweithwyr neu'r gymuned ehangach, gan gynnwys comisiynu/digomisiynu neu ddiwygio gwasanaethau

☐ Cynigion prosiect newydd sy'n effeithio ar staff, cymunedau neu hygyrchedd i'r amgylchedd adeiledig, e.e. gwaith adeiladu newydd neu addasiadau i adeiladau presennol, symud i wasanaethau ar-lein, hunan-wasanaeth, newid lleoliad.

☐ Digwyddiadau cyhoeddus ar raddfa fawr

☐ Gweithredu strategaeth/cynlluniau/deddfwriaeth cenedlaethol yn lleol (cyfeirio at unrhyw Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb cenedlaethol ac ystyried yr effaith leol)

☐ Cyfarwyddeb a bwriad strategol, gan gynnwys y rheiny sy'n cael eu datblygu mewn Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, gydag effaith ar swyddogaethau cyrff cyhoeddus

☐ Cynlluniau tymor canolig a thymor hir (er enghraifft, cynlluniau corfforaethol, cynlluniau datblygu, cynlluniau darparu a gwella gwasanaethau)

☐ Gosod amcanion (er enghraifft amcanion lles, amcanion cydraddoldeb, strategaeth y Gymraeg)

☐ Penderfyniadau caffael a chomisiynu mawr

☐ Penderfyniadau sy'n effeithio ar allu (gan gynnwys partneriaid allanol) i gynnig cyfleoedd a gwasanaethau Cymraeg

☐ Eraill - esboniwch yn y blwch isod:

I gynnal adolygiad llawn o'r meini prawf dewisol o'r polisi cludiant o'r cartref i'r ysgol. Mae hyn yn cynnwys ymgysylltu mewnol drwy'r broses pwyllgor, ymgynghoriad cyhoeddus, dadansoddi data'r ymgynghoriad a gweithredu unrhyw newidiadau a nodwyd.

**2. Beth yw'r nodau, amcanion a chanlyniadau cyffredinol a fwriedir ar gyfer y polisi neu'r arfer?**

I gynnal adolygiad llawn o'r meini prawf dewisol o'r polisi cludiant o'r cartref i'r ysgol. Bydd hyn yn cynnwys cynnal ymgynghoriad cyhoeddus.

Y meini prawf dewisol o'r polisi cludiant o'r cartref i'r ysgol yw:

- Cyfrwng Cymraeg
- ADY / Anghenion Meddygol
- Ymddygiad
- Dysgwyr sy'n newid cyfeiriad yn ystod eu haddysg
- Ysgol Enwadol
- Plant Teithwyr Sipsiwn Roma
- Seddi consesiynol
- Preswyliad deuol
- Cludiant Ôl-16

**3. Pwy yw'r prif grwpiau ymgynghorol (budd-ddeiliaid)?**

*Sylwer: Ystyriwch gymunedau lleoedd/buddiant (lle caiff pobl eu grwpio gyda'i gilydd yn sgil nodweddion arbennig neu ble maent yn byw)*

Gwasanaethau Addysg - ADY; Gwasanaeth Cynhwysiad Cymdeithasol; Gwasanaeth Gwella Addysg
Gwasanaethau eraill CBSC.
Adnoddau Dynol Corfforaethol a Thîm Cydraddoldeb CBSC
Deiliad Portffolio Addysg ac AFfCh
Cynghorwyr lleol
Adran y Gyfraith CBSC
Gwasanaeth Cludiant AFfCh CBSC (sy'n contractio cerbydau cludiant ysgol a chynorthwywyr teithio ADY
Tim Diogelwch Ffyrdd AFfCh CBSC

| |
|---|
| Timau Arwain yr Ysgol<br>Rhieni a disgyblion<br>Cymunedau lleol<br>Grwpiau eraill fel y nodwyd yn yr ymgynghoriad cyhoeddus |

**4. A yw'r polisi'n ymwneud â, neu'n cael ei ddylanwadu neu ei effeithio gan, bolisïau neu feysydd gwaith eraill (mewnol neu allanol) e.e. Asesiadau Effaith Integredig strategol os yw'r asesiad hwn yn un gweithredol ac fel arall?**

*Sylwer: Dylid ystyried hyn o ran gofynion statudol, polisïau lleol, penderfyniadau (partneriaeth) rhanbarthol, polisïau cenedlaethol, diwygiadau lles.*

**Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 (hefyd Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021)**

O dan y Ddeddf Addysg 1996 (fel y diwygiwyd) 2.3 Dyletswyddau Cyfreithiol Awdurdod Addysg Lleol: Mae'n rhaid i Awdurdodau LIeol:-

- Asesu anghenion teithio dysgwyr yn ardal eu hawdurdod
- Darparu cludiant o'r cartref i'r ysgol yn rhad ac am ddim i ddysgwyr o oedran ysgol gorfodol sy'n mynd i ysgol gynradd ac sy'n byw 2 filltir neu fwy oddi wrth eu hysgol addas agosaf
- Darparu cludiant o'r cartref i'r ysgol yn rhad ac am ddim i ddysgwyr o oedran ysgol gorfodol sy'n mynd i ysgol uwchradd ac sy'n byw 3 milltir neu fwy oddi wrth eu hysgol addas agosaf
- Asesu anghenion plant sy'n "derbyn gofal" yn ardal eu hawdurdod a bodloni'r anghenion hyn
- Lle nad oes gan ddysgwyr hawl i gludiant am ddim, mae gan awdurdodau lleol y pŵer i ddarparu cludiant yn ôl disgresiwn

**Rheoliadau Hygyrchedd Cerbydau Gwasanaeth Cyhoeddus 2000**

Yn berthnasol i holl gerbydau **gwasanaeth cyhoeddus** newydd (bysiau a choetsys) gyda **lle i fwy na 22 o deithwyr** a defnyddir i **ddarparu gwasanaeth lleol neu a drefnwyd.** Bydd holl goetsys a effeithir sy'n cael eu defnyddio angen tystysgrifau yn cadarnhau eu bod yn cydymffurfio â darpariaeth fel gofynion hygyrchedd cadeiriau olwyn, a gofynion hygyrchedd mwy cyffredinol, gan gynnwys, ymysg pethau eraill, manylebau ar gyfer seddi, grisiau, lloriau/eiliau a chanllawiau. Ble bydd cludiant o'r cartref i'r ysgol yn cael ei ddarparu i'r defnyddiwr yn rhad ac am ddim, yna nid yw'r rheoliadau yn berthnasol. Os bydd seddi dros ben yn cael eu gwerthu ar gerbydau cludiant o'r cartref i'r ysgol (dros 22 o seddi) i deithwyr sy'n talu, bydd y siwrnai yn un sy'n ei wneud yn wasanaeth lleol neu a drefnir. Un teithiwr yn unig sydd ei angen sy'n talu i'w gwneud yn ofynnol i'r cerbyd gydymffurfio â'r rheoliadau.

**Polisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**

Er mwyn ymgymryd â'n dyletswyddau cyfreithiol, mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy bolisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol. Mae'r polisi hwn yn cynnwys yr ymrwymiadau statudol sy'n ofynnol ond mae hefyd yn nodi meini prawf dewisol ychwanegol.

## CAM 2 - Data, Ymgysylltu ac Asesu'r Effaith

Wrth lenwi'r adran hon, mae angen i chi ystyried a oes gennych chi ddigon o wybodaeth i lenwi eich AEG, neu a oes angen i chi gynnal cyfnod ymgysylltu/ymgynghori cyn parhau. Mae'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â phroses yr AEG yn gofyn i chi **gynnwys ac ymgysylltu â phobl sy'n cynrychioli buddiannau'r unigolion sy'n rhannu un neu fwy o'r nodweddion a ddiogelir ac â'r rhai sydd â budd yn y modd rydych chi'n cyflawni eich swyddogaethau.** Mae'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ni **gymryd i ystyriaeth lleisiau'r rheiny yn y gymuned gan gynnwys y rheiny sydd â phrofiad o fyw dan anfantais economaidd-gymdeithasol.** Dylech ymgysylltu â chymunedau buddiant neu gymunedau lleoedd er mwyn deall a yw eich cynigion yn cael mwy o effaith arnynt neu yn eu rhoi dan fwy o anfantais. Mae'n rhaid i hyn fod yn gymesur â'r polisi neu'r arfer sy'n cael ei asesu. <u>Cofiwch y gall y budd-ddeiliaid hefyd gynnwys ein gweithlu ein hunain yn ogystal â sefydliadau partner.</u>

Cyn cynnal gweithgareddau ymgysylltu penodol, dylech edrych ar ddata o ymgynghoriadau, gwaith ymgysylltu ac ymchwil diweddar yn gyntaf. Gallai hyn fod ar bolisi cysylltiedig diweddar neu asesiadau diweddar a gynhaliwyd gan gydweithwyr neu ffynonellau eraill, e.e. A yw Cymru'n Decach?, Dogfen Data Cefndir Gogledd Cymru, Info Base Cymru, Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Gall hyn helpu i feithrin hyder ymysg grwpiau a chymunedau, sy'n gallu gweld bod camau yn cael eu cymryd i weithredu ar yr hyn y maent wedi'i ddweud. Os mai ychydig iawn neu ddim o gwbl o wybodaeth sydd gennych chi o'ch gwaith ymgysylltu blaenorol sy'n berthnasol i'r AEI, neu os nad oes gennych chi unrhyw wybodaeth berthnasol o gwbl, dylech wneud rhywfaint o waith ymgysylltu gyda'ch budd-ddeiliaid a gyda grwpiau o gynrychiolwyr perthnasol, er mwyn sicrhau nad ydych, yn ddiarwybod i chi, yn anwybyddu anghenion grwpiau a ddiogelir. Anaml y mae'n dderbyniol datgan yn syml y bydd polisi o fudd / anfantais gyffredinol i bawb, ac felly yr effeithir ar unigolion yn gyfartal beth bynnag fo'u nodweddion. Dylai'r dadansoddiad fod yn fwy cadarn na hyn, gan ddangos bod ystyriaeth wedi'i roi i'r holl dystiolaeth sydd ar gael a mynd i'r afael ag unrhyw fylchau neu wahaniaeth. Mae'n bosibl y bydd angen cymryd camau penodol i fynd i'r afael ag anfantais bresennol neu ddiwallu gwahanol anghenion.[1]

Gall **Egwyddorion Gunning** a sefydlwyd o achosion llys o'r gorffennol, helpu i sicrhau tegwch wrth i ni ymgysylltu ac ymgynghori.

<u>Egwyddor 1:</u> Mae'n rhaid i ymgynghori ddigwydd pan fo'r cynigion yn dal ar y cam cychwynnol. Ni ddylech fod wedi gwneud eich penderfyniad yn barod.
<u>Egwyddor 2:</u> Dylid cyflwyno rhesymau digonol i ganiatáu ar gyfer ystyriaeth ac ymateb gwybodus. A yw pobl wedi cael y wybodaeth a'r cyfle i ddylanwadu?
<u>Egwyddor 3:</u> Rhaid caniatáu digon o amser ar gyfer ystyriaeth ac ymateb. A yw'r ymgynghoriad yn ddigon hir o ystyried yr amgylchiadau?
<u>Egwyddor 4:</u> Mae'n rhaid ystyried cynnyrch yr ymgynghoriad yn gydwybodol wrth ddod i benderfyniad terfynol.

[1] Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

**5. Ydych chi wedi cydymffurfio â’r ddyletswydd i ymgysylltu fel y disgrifiwyd uchod, ac ydych chi’n ddigon gwybodus i fwrw ymlaen?**

Ydym ☒ Nac ydym ☐ ***(rhowch groes fel sy’n briodol** X**)***

**6. Os ydych, pa weithgareddau ymgysylltu wnaethoch chi eu cynnal a gyda phwy?**

- Rheolwyr Adain Gwasanaeth Addysg a Phennaeth Gwasanaethau Addysg i adolygu meini prawf ADY ac Ymddygiad.
- Rheolwyr cludiant AFfCh i adolygu darpariaeth gwasanaethau bws a cherbydau dan gontract.
- Aelodau Portffolio Addysg ac AFfCh i ddarparu gorolwg o’r heriau a wynebir yn y gwasanaeth Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol.
- Ymgysylltu blaenorol â’r gymuned ar gyfer newidiadau i Gludiant ÔI-16 (2018) drwy ymgynghoriad cyhoeddus.

**7. Os ddim, efallai yr hoffech ystyried oedi ar y pwynt hwn tra rydych yn cynnal gweithgareddau ymgysylltu (pellach) y gallwch eu cynnwys yn y cynllun gweithredu isod.** Ymgorfforwch unrhyw wybodaeth a gasglwyd o’r gweithgaredd ychwanegol hwn yn y blychau yng nghwestiwn 8.

| **Cam Gweithredu** | **Dyddiadau** | **Amserlen** | **Cyfrifoldeb Arweiniol** | **Gwybodaeth wedi’i hychwanegu i’r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (✓)** |
|---|---|---|---|---|
| Ymgynghoriad Cyhoeddus | 1 Chwefror i 21 Mawrth 2024 | 6 wythnos | Pennaeth Gwasanaethau Addysg | Cyn yr Ymgynghoriad |
| Dadansoddiad data o ganlyniadau a chasgliadau ymgynghoriad cyhoeddus | 22 Mawrth 2024 | 4 wythnos | Pennaeth Gwasanaethau Addysg | Ar ôl ymgynghori |
| Newidiadau arfaethedig i’r polisi | 22 Ebrill 2024 | 4 wythnos | Pennaeth Gwasanaethau Addysg | Ar ôl ymgynghori |
| Adolygu ffurflen Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb i gymryd i ystyriaeth canlyniadau dadansoddi data ymgynghoriad cyhoeddus a newidiadau a awgrymir i’r polisi i nodi unrhyw grwpiau a effeithir arnynt yn annheg gan y newidiadau. | 22 Ebrill 2024 | 4 wythnos | Pennaeth Gwasanaethau Addysg | Ar ôl ymgynghori |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Newidiadau arfaethedig diwygiedig i'r polisi i sicrhau na effeithir ar unrhyw grŵp yn annheg gan y newidiadau. | 22 Mai 2024 | 4 wythnos | Pennaeth Gwasanaethau Addysg | Ar ôl ymgynghori |

8. **Pa wybodaeth sydd genych am yr effaith ar bob un o'r nodweddion canlynol a'r ystyriaethau / dyletswyddau statudol o'ch profiad o ddarparu gwasanaeth presennol a gwaith ymgysylltu neu ymgynghori diweddar?** Dylech gynnwys unrhyw ddata perthnasol ychwanegol; gwybodaeth rheoli ymchwil a pherfformiad; arolygon; Llywodraeth, corff proffesiynol neu astudiaethau sefydliadau; data'r Cyfrifiad; A yw Cymru'n Decach? (Data [2]EHRC); gwybodaeth o sgrinio cychwynnol; cwynion/canmoliaeth; data ac adborth defnyddwyr gwasanaeth; archwiliadau; data economaidd-gymdeithasol gan gynnwys data Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru[3] Efallai yr hoffech gynnwys is-benawdau sy'n dangos o le mae pob elfen o'ch data wedi dod, e.e. data cenedlaethol, data lleol, data sefydliad, ymarferion ymgysylltu cyffredinol neu benodol, ac ati. Cofio ystyried materion croesdoriadedd, hynny yw, y berthynas rhwng hunaniaeth gymdeithasol sy'n gorgyffwrdd (neu grwpiau economaidd-gymdeithasol a nodweddion gwarchodedig.

Ystyriwch unrhyw effaith gadarnhaol neu negyddol gan gynnwys tueddiadau mewn data, daearyddiaeth (materion trefol neu wledig), demograffeg, materion mynediad, rhwystrau ac ati. Hefyd dylech gynnwys unrhyw feysydd lle mae anghydraddoldebau o ran canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol neu faterion perthnasol eraill a nodwyd gan gymunedau buddiant neu gymunedau lleoedd (h.y. lle mae budd-ddeiliaid, defnyddwyr gwasanaeth, staff, cyrff cynrychioli ac ati yn cael eu grwpio gyda'i gilydd oherwydd nodweddion penodol neu ble maent yn byw), ac unrhyw faterion a nodir ar gyfer pobl sy'n byw mewn amgylchiadau cymdeithasol a/neu economaidd llai ffafriol.

| **Nodwedd Warchodedig / Grŵp** | **Data Perthnasol** | **Effaith Gadarnhaol a / neu Negyddol** | **Awgrymiadau**<br>(nid yw'n rhestr lawn)<br>**Ystyriwch:** |
|---|---|---|---|
| **Hil** | Mae Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol yn ddarpariaeth statudol ar gyfer meini prawf fel y manylir yng nghwestiwn 4. Nid oes unrhyw wahaniaethu yn erbyn hil yn ein darpariaeth.<br><br>Mae 92% o ddisgyblion yn nodi eu bod yn Wyn Brydeinig. | Nid yw hil yn effeithio ar y polisi hwn. | Ethnigrwydd<br>Cenedligrwydd<br>Sipsiwn, Roma a Theithwyr<br>Iaith: darparu dehonglydd<br>Ffoaduriaid / Ceiswyr Lloches<br>Ymfudwyr<br>Cam gweithredu cadarnhaol<br>Digwyddiadau Ymwybyddiaeth<br>Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar ddileu pob math o Wahaniaethu Hiliol yn erbyn Menywod (UNCERD)<br>Ystyried materion croesdoriad |

[2] Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

[3] Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

| Nodwedd Warchodedig / Grŵp | Data Perthnasol | Effaith Gadarnhaol a / neu Negyddol | Awgrymiadau<br>(nid yw'n rhestr lawn)<br>**Ystyriwch:** |
|---|---|---|---|
| | Mae'r polisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol yn caniatau ar gyfer darparu cludiant i blant o'r gymuned Teithwyr Sipsiwn Roma hyd yn oed os ydynt yn byw o fewn y pellter statudol o'r ysgol er mwyn datblygu patrwm presenoldeb rheolaidd.<br><br>Mae disgyblion sy'n ffoaduriaid Wcreineg wedi cael budd o Gludiant o'r Cartref i'r Ysgol am ddim tra'n aros gyda'u teuluoedd sy'n derbyn plant. | Roedd nifer fach o blant Teithwyr Sipsiwn Roma wedi derbyn cludiant o'r cartref i'r ysgol am ddim yn 2023 ond nid o dan y meini prawf Teithwyr Sipsi.<br><br>Mae cludiant o'r cartref i'r ysgol am ddim i'r dysgwyr hyn bellach wedi dod i ben. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud darpariaeth ar gyfer teithio am ddim ar fws i'r dysgwyr hyn. | |
| **Anabledd** | **Data Cymru**<br>Nid yw [Cyfrifiad 2021] ar gael ar ddata Anabledd eto. Mae Cyfrifiad 2011 yn darparu gwybodaeth ynglŷn â salwch cyfyngol tymor hir sy'n dangos fod gan 12.1% salwch cyfyngol sy'n effeithio ar eu gweithgareddau dydd i ddydd "llawer iawn" a 12.2% pellach "ychydig" (cyfanswm o 24.3%), gyda 75.8% heb unrhyw salwch cyfyngol. Yn ôl yr Arolwg Poblogaeth | | Symudedd / Deheurwydd<br>Dall neu nam ar y golwg<br>Byddar neu nam ar y clyw<br>Iechyd Meddwl<br>Anableddau dysgu<br>Dementia<br>Gwahaniaeth niwrolegol / Awtistiaeth<br>Mynediad i adeiladau/cyfleusterau<br>Mynediad i ddulliau cyfathrebu<br>Gofalwyr |

| Nodwedd Warchodedig / Grŵp | Data Perthnasol | Effaith Gadarnhaol a / neu Negyddol | Awgrymiadau<br>(nid yw'n rhestr lawn)<br>**Ystyriwch:** |
|---|---|---|---|
| | Blynyddol yn 2021, roedd 24.9% o bobl oedran gwaith yng Nghymru yn anabl i lefel a fyddai'n cyfyngu eu gallu i weithio.<br><br>Mae data / ffigyrau pellach am anabledd yng Nghymru ar gael ar wefan Ystadegau Cymru.<br><br>Mae'r adroddiad Drws ar glo: datgloi bywydau a hawliau pobl anabl yng Nghymru ar ôl COVID-19 yn ystyried effaith pandemig Covid-19 ar bobl anabl ac yn amlygu camau y gellir eu cymryd i leihau anghydraddoldeb yn y maes hwn.<br><br>Mae gwybodaeth am y Model Cymdeithasol o Anabledd ar gael mewn ystod o leoedd, gan gynnwys drwy Anabledd Cymru.<br><br>**Data Conwy**<br>Mae yna rai ffynonellau data sy'n rhoi gwybodaeth gywir a dibynadwy am y nifer o bobl ag anableddau ac mae ffigyrau yn aml yn cael eu hystyried fel tangyfrifiad.<br><br>Mae rhai ffynonellau data i'w gweld yn y Bwletin Ymchwil Ystadegau Cydraddoldeb, a gyhoeddir ar wefan y Cyngor bob blwyddyn. | | Gofynion dietegol<br>Cyflyrau Iechyd Hirdymor Eraill<br>Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (UNCRPD)<br>Ystyried materion croesdoriad |

<table>
<tr><th>Nodwedd Warchodedig / Grŵp</th><th>Data Perthnasol</th><th>Effaith Gadarnhaol a / neu Negyddol</th><th>Awgrymiadau<br>(nid yw’n rhestr lawn)<br>Ystyriwch:</th></tr>
<tr><td></td><td>
Table 2.1: limiting long-term illness and age (2011)<br>Source: Census 2011 table KS301EW
<table>
<tr><th></th><th colspan="2">Conwy County Borough</th></tr>
<tr><th></th><th>Number</th><th>%</th></tr>
<tr><td>All people</td><td>115,228</td><td></td></tr>
<tr><td>Day-to-day activities limited a lot</td><td>13,896</td><td>12.1%</td></tr>
<tr><td>Day-to-day activities limited a little</td><td>14,019</td><td>12.2%</td></tr>
<tr><td>Day-to-day activities not limited</td><td>87,313</td><td>75.8%</td></tr>
<tr><td>Aged 16-64</td><td>67,940</td><td></td></tr>
<tr><td>Day-to-day activities limited a lot</td><td>5,209</td><td>7.7%</td></tr>
<tr><td>Day-to-day activities limited a little</td><td>5,982</td><td>8.8%</td></tr>
<tr><td>Day-to-day activities not limited</td><td>56,749</td><td>83.5%</td></tr>
</table>
Mae yna hefyd gofrestr o bobl â nam corfforol a / neu nam ar y synhwyrau a phobl ag anableddau dysgu sy’n defnyddio’r gwasanaethau cymdeithasol yn y Sir, ond dim ond gwybodaeth am y bobl hynny sy’n defnyddio gwasanaethau’r Cyngor yw hynny. Yn 2018/19 roedd hyn yn 6.2% o’r boblogaeth yng Nghonwy (yn erbyn ffigwr Cymru gyfan o 2.1%). Yn Awst 2021, roedd 12.4% o bobl anabl yng Nghonwy yn hawlio budd-dal Lwfans Byw i'r Anabl, Taliadau Annibyniaeth Bersonol neu Lwfans Gweini.
Yn ôl Cyfrifiad 2011, roedd yna 13,605 o ofalwyr di-dâl yn y Sir (unrhyw gymorth di-dâl, gofalu neu gefnogi aelodau o’r teulu, ffrindiau, cymdogion neu eraill oherwydd salwch
</td><td></td><td></td></tr>
</table>

<table>
<tr><th>Nodwedd Warchodedig / Grŵp</th><th>Data Perthnasol</th><th>Effaith Gadarnhaol a / neu Negyddol</th><th>Awgrymiadau<br>(nid yw’n rhestr lawn)<br>Ystyriwch:</th></tr>
<tr><td></td><td>meddyliol neu gorfforol hirdymor neu broblemau sy’n gysylltiedig ag oed).<br><br>Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 - 2021 Adolygiad Cymru gyfan a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru<br>Mae oddeutu 9,288 o ddisgyblion sy’n cael eu cludo bob dydd o fewn y categori ADY: 8.56% o’r cyfanswm cyfan. Fodd bynnag, mae darpariaeth cludiant ysgol i ddisgyblion ADY yn cyfrif am gyfran uwch o wariant awdurdodau lleol;<br><br>Data ADY dros 5 mlynedd<br>Mae gan Gonwy ganran uwch o ddisgyblion gydag anghenion ADY fesul poblogaeth ysgol na rhanbarth Gogledd Cymru a Chymru. Roedd hyn 1.7% yn uwch na chanran Cymru yn 2022 a 1.3% yn uwch na’r canran rhanbarthol.<br><br>
<table>
<tr><th></th><th></th><th>2022</th></tr>
<tr><td rowspan="3">Cyfanswm Nifer ADY</td><td>Conwy</td><td>17.54%</td></tr>
<tr><td>Rhanbarth</td><td>16.22%</td></tr>
<tr><td>Cymru</td><td>15.85%</td></tr>
</table>
<br>Data CYBLD 2022-23</td><td></td><td></td></tr>
</table>

| **Nodwedd Warchodedig / Grŵp** | **Data Perthnasol** | **Effaith Gadarnhaol a / neu Negyddol** | **Awgrymiadau**<br>(nid yw'n rhestr lawn)<br>**Ystyriwch:** |
|---|---|---|---|
| | Mae'r nifer o ddisgyblion gyda statws ADY yn cyfateb i 14% o boblogaeth ysgolion Conwy.<br>Roedd 1.8% o boblogaeth ysgolion Conwy yn mynychu Ysgol Arbennig y Gogarth yn 2022/23. Mae 89% o'r disgyblion yn Ysgol y Gogarth yn derbyn cludiant o'r cartref i'r ysgol am ddim. | | |
| **Rhyw** | Mae Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol yn ddarpariaeth statudol ar gyfer meini prawf fel y manylir yng nghwestiwn 4. Nid oes unrhyw wahaniaethu yn erbyn rhyw yn ein darpariaeth. | Dim | Dynion / Merched<br>Hunaniaeth Rhywedd<br>Toiledau / cyfleusterau newid babanod<br>Gofal plant<br>Bwlch cyflog rhwng y rhywiau<br>Gweithwyr rhyw<br>Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar ddileu pob math o Wahaniaethu Hiliol yn erbyn Menywod (UNCEDAW)<br>Ystyried materion croesdoriad |
| **Oedran** | **Data Cyfrifiad 2011:**<br>**Ardal Oed nifer o bobl % o'r boblogaeth**<br>Conwy 5-15 13,287 11.5%<br><br>**Data Cyfrifiad 2011:**<br>Nifer y bobl o dan 15 oed yn 17,200 neu 15.0% o gyfanswm y boblogaeth (i lawr o 19,150 neu 15.4% yn 2011). Y boblogaeth o dan 15 oed yng Nghymru gyfan = 16.5%; yng Nghymru a Lloegr = 17.4% (i lawr o 16.9% a 17.6%). | | Pobl Hŷn<br>Plant<br>Pobl ifanc<br>Pobl mewn oedran gweithio<br>Teuluoedd Ifanc<br>Demograffeg<br>DS: Os effeithir ar blant / pobl ifanc dylid cwblhau Rhestr Wirio Hawliau Plant<br>Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn<br>Cyfrifoldebau gofalu<br>Ystyried materion croesdoriad |

<table>
<tr><th>Nodwedd Warchodedig / Grŵp</th><th>Data Perthnasol</th><th>Effaith Gadarnhaol a / neu Negyddol</th><th>Awgrymiadau<br>(nid yw’n rhestr lawn)<br>Ystyriwch:</th></tr>
<tr><td></td><td>Mae cludiant o’r cartref i’r ysgol yn ddarpariaeth statudol ar gyfer meini prawf fel y manylir yng nghwestiwn 4 a darperir i ddisgyblion o dan 19 oed o fewn Conwy.<br><br>Mae darpariaeth cludiant o’r cartref i’r ysgol ar gyfer disgyblion oedran ysgol gorfodol. Nid yw’n ofyniad gorfodol ar gyfer disgyblion ôl-16 oed, fodd bynnag, mae yna ffactorau allanol sy’n effeithio ar yr economi a’r cymunedau a all gefnogi darpariaeth barhaus y cludiant hwn i’r grŵp hwn. Bydd y cod ADY newydd yng Nghymru yn cynyddu oedran pobl ifanc ag ADY sy’n gallu mynychu sefydliadau addysgol i 25 oed a gall effeithio ar ddarpariaeth cludiant o’r cartref i’r ysgol os oes yna newidiadau i ddeddfwriaeth statudol i ddarparu teithio.</td><td></td><td></td></tr>
<tr><td>Crefydd a Chred</td><td>Data Cyfrifiad 2011:
<table>
<tr><th></th><th colspan="2">Bwrdeistref Sirol Conwy</th><th>Cy</th></tr>
<tr><td>Yr holl bobl</td><td>115,228</td><td></td><td>3,063,456</td></tr>
<tr><td>Cristion</td><td>74,506</td><td>64.7%</td><td>1,763,299</td></tr>
<tr><td>Bwdhydd</td><td>347</td><td>0.3%</td><td>9,117</td></tr>
<tr><td>Hindŵ</td><td>206</td><td>0.2%</td><td>10,434</td></tr>
<tr><td>Iddewig</td><td>62</td><td>0.1%</td><td>2,064</td></tr>
<tr><td>Mwslim</td><td>583</td><td>0.5%</td><td>45,950</td></tr>
<tr><td>Sikh</td><td>17</td><td>0.0%</td><td>2,962</td></tr>
</table></td><td></td><td>Cymunedau Ffydd<br>Di-gred<br>Gofynion dietegol<br>Llysieuwyr / Figaniaid<br>Credoau athronyddol eraill<br>Cod gwisg / iwnifformau<br>Gwyliau / gweithgareddau crefyddol<br>Ystyried materion croesdoriad</td></tr>
</table>

<table>
<tr><th>Nodwedd Warchodedig / Grŵp</th><th>Data Perthnasol</th><th>Effaith Gadarnhaol a / neu Negyddol</th><th>Awgrymiadau<br>(nid yw'n rhestr lawn)<br>Ystyriwch:</th></tr>
<tr><td></td><td>
<table>
<tr><td>Crefydd arall</td><td>478</td><td>0.4%</td><td>12,705</td><td>0.4%</td></tr>
<tr><td>Dim crefydd</td><td>30,017</td><td>26.1%</td><td>982,997</td><td>32.1%</td></tr>
<tr><td>Crefydd heb ei nodi</td><td>9,012</td><td>7.8%</td><td>233,928</td><td>7.6%</td></tr>
</table>
<br>Mae Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol yn ddarpariaeth statudol ar gyfer meini prawf fel y manylir yng nghwestiwn 4. Nid oes unrhyw ddarpariaeth statudol ar gyfer cludiant i ysgolion ffydd, fodd bynnag, mae gan y polisi cludiant o'r cartref i'r ysgol feini prawf dewisol, "Yn amodol i gyfarfod y meini prawf pellter statudol, bydd y Cyngor yn darparu cludiant cartref i'r ysgol am ddim i ddisgyblion o oed ysgol gorfodol sy'n mynychu ysgol enwadol cyn belled bod y disgybl yn byw o fewn dalgylch yr ysgol enwadol dan sylw".<br><br>Yng nghyfrifiad 2011 roedd 64.7% wedi eu nodi yn Gristion yn sir Conwy.<br><br>Yn 22-23 roedd oddeutu 80 disgybl wedi eu cludo i ysgol (ffydd) enwadol gan eu bod yn nhalgylch yr ysgol ond yn byw dros y pellter statudol.</td><td></td><td></td></tr>
<tr><td>Cyfeiriadedd Rhywiol</td><td>Mae Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol yn ddarpariaeth statudol ar gyfer meini prawf</td><td>Dim</td><td>Hoyw<br>Lesbiad<br>Deurywiol</td></tr>
</table>

| Nodwedd Warchodedig / Grŵp | Data Perthnasol | Effaith Gadarnhaol a / neu Negyddol | Awgrymiadau<br>(nid yw’n rhestr lawn)<br>**Ystyriwch:** |
|---|---|---|---|
| | fel y manylir yng nghwestiwn 4 ac nid yw’n cynnwys profion modd. Nid oes unrhyw wahaniaethu yn erbyn cyfeiriadedd rhywiol yn ein darpariaeth. Ni chesglir y data hwn ar gyfer disgyblion ac felly ni ellir gwneud sylw pellach. | | Heterorywiol<br>Terminoleg<br>Cyfrinachedd am rywioldeb<br>Ystyried materion croesdoriad |
| **Ailbennu Rhywedd** | Mae Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol yn ddarpariaeth statudol ar gyfer meini prawf fel y manylir yng nghwestiwn 4. Nid oes unrhyw wahaniaethu yn erbyn ailbennu rhywedd yn ein darpariaeth. Ni chesglir y data hwn ar gyfer disgyblion ac felly ni ellir gwneud sylw pellach. | Dim | Unigolyn sy’n bwriadu, yn dechrau neu wedi newid ei ryw neu eu rhyw<br>Trawsryweddol<br>Defnyddio iaith briodol, h.y. rhagenwau priodol<br>Cyfleusterau newid a thoiledau sy’n niwtral o ran rhywiau<br>Ystyried materion croesdoriad |
| **Priodas a Phartneriaeth Sifil** | Mae Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol yn ddarpariaeth statudol ar gyfer meini prawf fel y manylir yng nghwestiwn 4 ac nid yw’n cynnwys profion modd. Mae’r polisi cludiant o’r cartref i’r ysgol yn cynnwys y meini prawf dewisol i blant sydd â dau breswyliad oherwydd nad yw’r rhieni yn byw gyda’i gilydd. Y meini prawf yw y gellir darparu cludiant cartref i’r ysgol am ddim o’r ddwy breswylfa i’r ysgol addas agosaf i’r cartref mae budd-dal plant yn cael ei dalu (y brif breswylfa) os:<br>• Yw’r brif breswylfa o fewn CBS Conwy.<br>• Bodlonir y pellter statudol<br>• Yw’r daith o’r ail breswylfa yn llai na 10 milltir i’r ysgol | . | Statws priodasol<br>Statws Partneriaeth Sifil<br>Ystyried materion croesdoriad |

| Nodwedd Warchodedig / Grŵp | Data Perthnasol | Effaith Gadarnhaol a / neu Negyddol | Awgrymiadau<br>(nid yw'n rhestr lawn)<br>**Ystyriwch:** |
|---|---|---|---|
| | Roedd oddeutu 65 disgybl wedi derbyn cludiant o'r cartref i'r ysgol am ddim yn 22-23 gan eu bod yn preswylio mewn dau gyfeiriad ble mae rhieni wedi gwahanu. Roedd rhai o'r cyfeiriadau hyn ar gyfer cartrefi y tu allan i sir Conwy. | | |
| **Beichiogrwydd a Mamolaeth** | Mae cludiant o'r cartref i'r ysgol yn ddarpariaeth statudol ar gyfer meini prawf fel y manylir yng nghwestiwn 4 a darperir i ddisgyblion o dan 19 oed. Gall cludiant yn unol â'n polisi gael ei ddarparu ar gyfer disgyblion cymwys sy'n feichiog neu'n famau. | Dim | Mamau beichiog<br>Y rheiny sydd â hawl i gael seibiant mamolaeth a thadolaeth<br>Maethu / Mabwysiadu<br>Mamau sy'n bwydo ar y fron<br>Ystyried materion croesdoriad |
| **Y Gymraeg** | **Data Cyfrifiad 2011: Cyfanswm siaradwyr Cymraeg**<br>**Ardal** **Oed** **nifer o bobl** **% o'r boblogaeth**<br>Conwy Pob oedran 30,600 27.4%<br>Penmaenmawr Pob oedran 1,425 33.8%<br><br>**CYBLD Conwy 22_23 Ion 23**<br>**Dysgu Cymraeg fel Iaith 1af fel % o'r boblogaeth ysgol**<br>Cynradd 24.1%<br>Uwchradd 19.6%<br>Mae Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol yn ddarpariaeth statudol ar gyfer meini prawf | Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi ymrwymo i gynyddu darpariaeth Cymraeg yn ei ysgolion drwy:<br>• Cefnogi cynllun Llywodraeth Cymru "Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg"<br>• Dilyn y Cwricwlwm i Gymru<br>• Categoreiddio ysgolion yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg | Sicrhau statws cyfartal i'r Gymraeg a'r Saesneg.<br>Argaeledd a mynediad at wasanaethau, gweithgareddau a gwybodaeth.<br>Technoleg<br>Hawliau unigolion i ofyn am wasanaethau Cymraeg.<br>Effaith ar gymunedau sy'n siarad Cymraeg, gan gynnwys:<br>Effeithiau cadarnhaol / negyddol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.<br>Newidiadau posibl i nifer / canran y siaradwyr Cymraeg<br>Ymfudo<br>Cyfleoedd am swyddi / newidiadau staffio.<br>Anghenion a chyfleoedd hyfforddiant<br>Argaeledd addysg cyfrwng Cymraeg<br>Ystyried materion croesdoriad |

| Nodwedd Warchodedig / Grŵp | Data Perthnasol | Effaith Gadarnhaol a / neu Negyddol | Awgrymiadau<br>(nid yw'n rhestr lawn)<br>**Ystyriwch:** |
|---|---|---|---|
| | fel y manylir yng nghwestiwn 4 ac nid yw'n cynnwys profion modd.<br><br>Nid oes unrhyw ofyniad statudol i ddarparu cludiant i ysgol Gyfrwng Gymraeg pan nad yr ysgol agosaf yw hi. Fodd bynnag, mae'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn nodi "Mae gan Awdurdodau Lleol a Gweinidogion Cymru ddyletswydd o dan y Mesur Teithio gan Ddysgwyr i 'hybu mynediad i addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg".<br><br>Mae'r polisi cludiant o'r cartref i'r ysgol yn cynnwys meini prawf dewisol o "gludiant o'r cartref i'r ysgol am ddim i ddysgwyr oed ysgol gorfodol sy'n cwrdd â'r meini prawf pellter statudol i'r ysgol cyfrwng Cymraeg addas agosaf"<br><br>Roedd oddeutu 900 o ddisgyblion Conwy wedi eu cludo i'r ysgol cyfrwng Cymraeg agosaf yn 22-23, pan nad oedd hi yr ysgol agosaf atynt.<br><br>Bydd disgyblion sydd heb y sgiliau Cymraeg gofynnol ar gyfer ysgol cyfrwng Cymraeg yn derbyn cludiant am ddim i uned drochi Gymraeg am un tymor. | • Safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth<br>• Rhoi'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSGA) 10 mlynedd (2022_32) ar waith.<br><br>Mae 7 nod y CSGA wedi'u rhoi ar waith i gynyddu'r ddarpariaeth addysg a chyfleoedd drwy gyfrwng y Gymraeg. Gweledigaeth Conwy yw cynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg Conwy o 14%+ dros y deng mlynedd nesaf er mwyn cyrraedd nod Llywodraeth Cymru o 30% erbyn 2031.<br><br>Prif egwyddorion y cynllun:<br>• Darparu cychwyn cadarn i'r daith cyfrwng Cymraeg mewn cydweithrediad â'r holl randdeiliaid.<br>• Sicrhau dilyniant yn y Gymraeg a'r cyfrwng dysgu trwy gydol taith | |

| Nodwedd Warchodedig / Grŵp | Data Perthnasol | Effaith Gadarnhaol a / neu Negyddol | Awgrymiadau<br>(nid yw'n rhestr lawn)<br>**Ystyriwch:** |
|---|---|---|---|
| | Mae CBSC wedi ymrwymo i'r Gymraeg ac ar hyn o bryd mae'n darparu cludiant o'r cartref i'r ysgol am ddim ar sail dewisol i'r ysgol gyfrwng Cymraeg agosaf pan mae dros y pellter statudol o'r cyfeiriad cartref, ond nid yr ysgol agosaf atynt. | addysg plant a phobl ifanc Conwy.<br>• Cynnig cyfleoedd trochi ieithyddol priodol i ddisgyblion Conwy yn ôl yr angen.<br>• Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg fel iaith gymdeithasol plant a phobl ifanc Conwy.<br>• Hybu'r ethos Cymreig gan gefnogi ac arwain ein Lleoliadau gofal plant / ysgolion i symud ar hyd y continwwm ieithyddol.<br>• Sicrhau bod disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn derbyn cyfleoedd ieithyddol cyfartal.<br>• Cynnig cyfleoedd i staff addysgu ddatblygu eu sgiliau a'u gallu ieithyddol i fod yn fwy hyderus i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.<br>Mae'n debygol y gallai dileu cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol ar gyfer disgyblion sy'n mynychu ysgolion cyfrwng | |

| Nodwedd Warchodedig / Grŵp | Data Perthnasol | Effaith Gadarnhaol a / neu Negyddol | Awgrymiadau (nid yw'n rhestr lawn) **Ystyriwch:** |
|---|---|---|---|
| | | Cymraeg pan nad yw'n ysgol agosaf atyn nhw gael effaith negyddol ar allu'r Awdurdod i wireddu'r nodau a'r deilliannau hyn yn llawn. Hefyd mae'n debygol y gallai dileu cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol ar gyfer disgyblion sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg pan nad yw'n ysgol agosaf atynt effeithio ar nifer y disgyblion sy'n mynychu darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Gallai hyn weld cynnydd yn y niferoedd sy'n mynychu ysgolion dwyieithog. O'r herwydd fe all hyn effeithio ar nifer y siaradwyr Cymraeg rhugl yn y sir yn y dyfodol.<br><br>Nid yw disgyblion meithrin yn gymwys i gael cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol. Fodd bynnag, mae'n debygol y gallai dileu cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol ar gyfer | |

| Nodwedd Warchodedig / Grŵp | Data Perthnasol | Effaith Gadarnhaol a / neu Negyddol | Awgrymiadau (nid yw'n rhestr lawn) Ystyriwch: |
|---|---|---|---|
| | | disgyblion sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg, pan nad yw'n ysgol agosaf atynt, effeithio ar nifer y disgyblion sy'n dechrau eu haddysg mewn ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg ac, yn unol â hynny, gallai effeithio ar eu dewis o ysgol uwchradd.<br><br>Cludwyd 900 o ddisgyblion i Ysgolion Cyfrwng Cymraeg yn 22_23 pan nad dyma oedd eu hysgol agosaf (mae hyn yn cyfateb i 6% o'r holl ddisgyblion sy'n mynychu ysgol yng Nghonwy). Fodd bynnag, cafodd tua thraean o'r 900 o ddisgyblion hyn eu cludo i ysgolion cyfrwng Cymraeg mewn siroedd eraill sy'n ffinio â Chonwy fel eu hysgol cyfrwng Cymraeg agosaf. Ni all y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg bresennol, yn enwedig ar gyfer addysg | |

| Nodwedd Warchodedig / Grŵp | Data Perthnasol | Effaith Gadarnhaol a / neu Negyddol | Awgrymiadau<br>(nid yw'n rhestr lawn)<br>**Ystyriwch:** |
|---|---|---|---|
| | | uwchradd, gynnwys yr holl ddisgyblion sy'n dymuno cael addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yng Nghonwy. Gallai dileu cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol ar gyfer y traean hwn o ddysgwyr gael effaith andwyol ar eu haddysg a'u gallu i gael addysg cyfrwng Cymraeg cyn i'w cyfnod yn yr ysgol ddod i ben. Pe ceid gwared ar gludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg pan nad dyma'r ysgol agosaf ar gyfer disgyblion newydd o fis Medi 2025, gallai hyn gael effaith negyddol ar allu'r Awdurdod i wireddu nodau CSGA yr Awdurdod yn llawn - gallai leihau nifer y disgyblion sy'n gallu cael addysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ei dro, gallai hyn gael effaith negyddol ar nifer y siaradwyr Cymraeg rhugl yn y dyfodol. | |

| **Nodwedd Warchodedig / Grŵp** | **Data Perthnasol** | **Effaith Gadarnhaol a / neu Negyddol** | **Awgrymiadau** (nid yw'n rhestr lawn) **Ystyriwch:** |
|---|---|---|---|
| | | Mae CBSC yn dyheu am addysgu pob disgybl sy'n dymuno dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg o fewn ei hysgolion ei hun, ond nid yw hyn yn bosibl ar hyn o bryd oherwydd lleoliad daearyddol ei ysgolion.<br><br>Gyda thraean o ddisgyblion Conwy yn mynychu darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn siroedd eraill, gallai dileu'r ddarpariaeth cludiant cyfrwng Cymraeg effeithio ar nifer y disgyblion sy'n mynychu ysgolion y tu allan i'r sir ac felly gynyddu nifer y disgyblion sy'n mynychu darpariaeth ddwyieithog yng Nghonwy.<br><br>O 2022_23 bydd disgyblion blwyddyn 7 Ysgol Dyffryn Conwy yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, a | |

| Nodwedd Warchodedig / Grŵp | Data Perthnasol | Effaith Gadarnhaol a / neu Negyddol | Awgrymiadau<br>(nid yw'n rhestr lawn)<br>**Ystyriwch:** |
|---|---|---|---|
| | | bydd yr un peth yn wir ar gyfer holl ddisgyblion blwyddyn 7 y dyfodol. Mae'n debygol mai'r rhan fwyaf o ddysgwyr fydd y rhai sy'n byw o fewn y pellter statudol neu a fydd yn gymwys i gael cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol, gan mai hon yw eu hysgol agosaf.  Pe bai cludiant dewisol cyfrwng Cymraeg yn cael ei ddileu yn y garfan hon, mae'n debygol na chaiff fawr o effaith ar ddisgyblion sy'n cael mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg.<br><br>Addysgwyd 2928 o ddisgyblion drwy gyfrwng y Gymraeg yn ysgolion Conwy yn 2023. Roedd tua 20% o'r disgyblion hyn yn cael cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol gan nad hon oedd eu hysgol agosaf.  Mae dileu'r ddarpariaeth o gludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol i ysgolion cyfrwng | |

| Nodwedd Warchodedig / Grŵp | Data Perthnasol | Effaith Gadarnhaol a / neu Negyddol | Awgrymiadau<br>(nid yw'n rhestr lawn)<br>**Ystyriwch:** |
|---|---|---|---|
| | | Cymraeg pan nad dyma'r ysgol agosaf yn debygol o gael effaith negyddol ar nifer y disgyblion sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg a gallu'r Awdurdod i wireddu eu nodau CSGA yn llawn. | |
| **Ystyriaethau economaidd-gymdeithasol** | **<u>Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019 (WIMD 2019)</u>**<br>Ardaloedd yng Nghonwy ymhlith y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru ar gyfer pob parth.<br>• **Amddifadedd lluosog (mynegai cyffredinol)** - Glyn 2; Abergele Pensarn 2, Tudno 2; Colwyn 2;<br>• **Incwm** - Glyn 2; Tudno 2; Abergele Pensarn 2; Llysfaen 1; Colwyn 2<br>• **Cyflogaeth** - Glyn 2; Abergele Pensarn 2; Rhiw 3; Tudno 2; Colwyn 2<br>• **Iechyd** - Glyn 2; Tudno 2; Abergele Pensarn 2<br>• **Addysg** - Bae Cinmel 1<br>• **Mynediad i wasanaethau** - Uwch Conwy; Llansannan; Eglwysbach; Llangernyw; Uwchaled; Caerhun; | Nid yw cludiant o'r cartref i'r ysgol am ddim yn destun prawf a darperir yn unol â'n polisi. Os byddai meini prawf dewisol yn newid yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, gallai effeithio ar fynediad rhai teuluoedd i gludiant o'r cartref i'r ysgol am ddim. Gall rhai o'r teuluoedd hyn fod o ardaloedd difreintiedig. Byddai rhwymedigaethau statudol yn parhau yr un fath. | Pobl yn byw mewn amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd llai ffafriol nag eraill yn yr un gymdeithas. Gall nifer o ffactorau bywyd bob dydd ddwysau anfantais, nid ffiniau trefol neu wledig yn unig.<br>Ystyried materion 'rhyngtoriadol' – lle mae hunaniaeth yn gwaethygu statws economaidd-gymdeithasol rhywun, e.e., rhieni sengl (menywod yn aml), pobl anabl, rhai grwpiau BAME. |

| Nodwedd Warchodedig / Grŵp | Data Perthnasol | Effaith Gadarnhaol a / neu Negyddol | Awgrymiadau<br>(nid yw’n rhestr lawn)<br>**Ystyriwch:** |
|---|---|---|---|
| | Betws-yn-Rhos; Betws-y-coed; Trefriw<br>• **Tai** - Uwch Conwy; Glyn 1; Llangernyw; Gogarth 1; Llysfaen 1; Glyn 2<br>• **Diogelwch Cymunedol** - Glyn 2; Tudno 1; Tudno 2; Abergele Pensarn 2; Rhiw 3; Gogarth 1<br><br>**Data CYBLD 2022-23**<br>18% o holl ddisgyblion o fewn Conwy sy’n derbyn prydau ysgol am ddim<br>20.3% o ddisgyblion ysgolion cynradd sy’n derbyn prydau ysgol am ddim<br>17% o ddisgyblion ysgolion cynradd sy’n derbyn prydau ysgol am ddim<br>37.9% o ddisgyblion ysgolion arbennig sy’n derbyn prydau ysgol am ddim<br><br>Mae Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol yn ddarpariaeth statudol ar gyfer meini prawf fel y manylir yng nghwestiwn 4 ac nid yw’n cynnwys profion modd. Bydd disgyblion sy’n byw mewn amgylchedd gwledig neu ardaloedd eraill ble asesir nad oes yna lwybr diogel i’r ysgol yn derbyn cludiant o’r cartref i’r ysgol am ddim beth bynnag yw’r ffactorau economaidd-gymdeithasol. | | |

| Nodwedd Warchodedig / Grŵp | Data Perthnasol | Effaith Gadarnhaol a / neu Negyddol | Awgrymiadau<br>(nid yw'n rhestr lawn)<br>**Ystyriwch:** |
|---|---|---|---|
| | Bydd darpariaeth statudol yn darparu cludiant o'r cartref i'r ysgol am ddim i ddisgyblion os ydynt yn byw dros y pellter statudol o'u hysgol agosaf neu ble asesir nad oes yna lwybr diogel i'r ysgol. Mae hyn yn sicrhau na effeithir yn andwyol ar ddisgyblion sy'n byw mewn cymunedau gwledig pan maent yn cael mynediad i addysg.<br><br>Mae tua 60 o ddisgyblion yn derbyn cludiant o gymunedau gwledig ar hyn o bryd gan nad oes yna lwybr diogel i'r ysgol.<br><br>Nid yw Cludiant Ôl-16 yn statudol, fodd bynnag, mae CBSC yn darparu cludiant am ddim i ddisgyblion chweched dosbarth a choleg pan mae'r sefydliad agosaf ar gyfer y cwrs maent yn dymuno ei astudio dros 3 milltir i ffwrdd. Mae cludiant yn cael ei ddarparu i annog presenoldeb mewn addysg bellach ac i leihau'r ffactorau economaidd cysylltiedig â NEET (nid mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant) ar ein cymunedau ac economi.<br><br>Mae NEETs yn y DU wedi cynyddu 0.9% yn y tri mis diwethaf o 2022. Mae ymchwil yn dangos bod gan NEETs | | |

| Nodwedd Warchodedig / Grŵp | Data Perthnasol | Effaith Gadarnhaol a / neu Negyddol | Awgrymiadau<br>(nid yw'n rhestr lawn)<br>**Ystyriwch:** |
|---|---|---|---|
| | effaith economaidd andwyol drwy eu hoes (Amcangyfrif cost oes NEET (york.ac.uk)). Yn Chwefror 2023, yn ôl NOMIS roedd 6% o bobl ifanc 16 i 25 oed yng Nghonwy yn NEETs. | | |
| **Hawliau Dynol** | Mae cludiant o'r cartref i'r ysgol yn ddarpariaeth statudol ar gyfer meini prawf fel y manylwyd yng nghwestiwn 4 ac nid yw'n brawf modd ac mae'n sicrhau y gall holl ddisgyblion gael mynediad i addysg yn ddiogel ac yn deg heb wahaniaethu. | | Gweler Erthyglau Hawliau Dynol.<br>Ystyried materion croesdoriadedd<br>https://urldefense.com/v3/__https:/gwynedd.urlsand.com/?u=https*3A*2F*2Fhumanrightstracker.com*2Fen*2F&e=c56e375b&h=73260be9&f=y&p=n__;JSUlJSU!!DewiEMc5gbOXUWA!H5xGZKCcPqTCM4BO0x6nDvZM3AEZ1bSufIjfemmqs5F169cpwWThkVzIyDBeHADn-rCf69rN$ |
| **Arall (nodwch)** | **Ymchwil Bywyd yng Nghonwy Wledig Mai 2016 - Partneriaeth Pobl Conwy ar ran Creu Cymunedau Cryf a Bwrdd Trechu Tlodi**<br>• Cludiant cyhoeddus: Roedd dinasyddion mewn ardaloedd gwledig eisiau gweld cludiant cyhoeddus yn cynyddu yn hytrach na gostwng mewn ardaloedd gwledig.<br>• Ysgolion: Roedd cymunedau yn teimlo bod ysgolion cynradd yn galon y gymuned ac roeddent yn teimlo y byddai cau ysgolion cynradd yn cael effaith niweidiol ar fywyd cymunedol, oherwydd eu bod yn teimlo y byddai'n llai tebygol i deuluoedd aros yn y | Mae'r defnydd o wasanaethau bws cyhoeddus i ddisgyblion oedran ysgol uwchradd ble bo'n bosibl yn helpu i gynnal gwasanaethau lleol a hybu'r defnydd o gludiant cyhoeddus a theithio llesol ymhlith y boblogaeth iau.<br><br>Mae adolygiad parhaus o ddarpariaeth cludiant yn nodi os gellir defnyddio gwasanaethau bws cyhoeddus yn hytrach na chludiant dan gontract. | e.e. Caethwasiaeth Fodern, Diogelu, effeithiau COVID eraill, Gofalwyr, Cyn-droseddwyr, Cyn-filwyr, Ymadawyr Gofal, Camddefnyddwyr Sylweddau, Y Digartref<br>Ystyried materion croesdoriad |

| Nodwedd Warchodedig / Grŵp | Data Perthnasol | Effaith Gadarnhaol a / neu Negyddol | Awgrymiadau (nid yw'n rhestr lawn) **Ystyriwch:** |
|---|---|---|---|
| | cymunedau, fyddai wedyn yn cael effaith ar ysbryd cymunedol a rhwydweithiau cefnogi.<br>• Cyflwr y ffyrdd: Mae cymunedau gwledig yn teimlo ei bod yn bwysig bod ffyrdd a phalmentydd yn cael eu cynnal a'u gwella yn yr ardal. Roedd cymunedau gwledig hefyd yn codi pryderon ynglŷn â maint y traffig a gyrru drwy bentrefi. | | |

| **Deddf Hawliau Dynol 1998** | |
|---|---|
| • Erthygl 2 Yr hawl i fywyd | • Erthygl 8 Parch at fywyd preifat, teulu, cartref a gohebiaeth |
| • Erthygl 3 Rhyddid rhag artaith a thriniaeth annynol neu ddiraddiol | • Erthygl 9 Rhyddid meddwl, credoau a chrefydd |
| • Erthygl 4 Rhyddid rhag caethwasiaeth a llafur gorfodol | • Erthygl 10 Rhyddid mynegiant |
| • Erthygl 5 Hawl i ryddid a diogelwch | • Erthygl 11 Rhyddid cynulliad a chymdeithas |
| • Erthygl 6 Hawl i brawf teg | • Erthygl 12 Hawl i briodi a chychwyn teulu |
| • Erthygl 7 Dim cosb heb gyfraith | • Erthygl 13 Hawl i gael mynediad at wellhad effeithiol os yw hawliau'n cael eu treisio |
| | • Erthygl 14 Diogelu rhag gwahaniaethu |

**9. A oes unrhyw fylchau yn y data neu wybodaeth ac os oes, beth ydyn nhw a sut ydych yn bwriadu mynd i'r afael â nhw?**

| **Dim** |
|---|

Sylwer: Os nad oes modd cael y wybodaeth hon nawr, dylech ei chynnwys yn eich cynllun gweithredu yng ngham 6 fel bod y wybodaeth hon ar gael i Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb yn y dyfodol.

**10. Os yw'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb hwn yn ddiweddariad o fersiwn flaenorol o bolisi neu arfer tebyg, a gyflawnwyd y canlyniadau a fwriadwyd ar gyfer y cynnig y tro diwethaf neu a oedd canlyniadau eraill?**(Rhowch fanylion, er enghraifft, a oedd yr effaith wedi'i gyfyngu i'r bobl yr oeddech yn meddwl a fyddai'n cael eu heffeithio i ddechrau, neu a effeithiwyd ar bobl eraill ac os felly, sut?)

| |
|---|
| Amh. |

**11. Beth mae eich cynnig yn ei gynnwys i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (i hyrwyddo cyfle cyfartal; helpu i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon a meithrin cysylltiadau da a chydlyniant cymunedol ehangach; fel y mae'r 3 nod yn ei gwmpasu o'r Ddyletswydd Gyffredinol yn Neddf Cydraddoldeb 2010)?**

| |
|---|
| Mae cludiant o'r cartref i'r ysgol yn ddarpariaeth statudol ac mae'n sicrhau y gall holl ddisgyblion gael mynediad i addysg yn ddiogel ac yn deg heb wahaniaethu.<br><br>Mae rhieni yn gallu ymgeisio am gludiant yn defnyddio'r porthol ar-lein o unrhyw ddyfais neu dderbyn copi papur. Mae rhieni sy'n ei chael hi'n anodd cael mynediad neu lenwi'r cais yn gallu cael cymorth i'w lenwi.<br><br>Bydd y broses ymgynghoriad cyhoeddus yn agored ac ar gael i bawb. |

**12. Sut mae eich cynnig yn dangos eich bod wedi rhoi ystyriaeth ddyledus i'r angen i fynd i'r afael ag anghyfartaleddau deilliant o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol. (Sylwer bod hyn yn ymwneud â chau bylchau anghydraddoldeb yn hytrach na gwella canlyniadau i bawb).**

| |
|---|
| Mae cludiant o'r cartref i'r ysgol yn ddarpariaeth statudol ar gyfer meini prawf fel y manylir yng nghwestiwn 4 ac yng Nghanllawiau Gweithredol a Darpariaeth Statudol Teithio i Ddysgwyr (gov.wales). Nid yw cludiant o'r cartref i'r ysgol yn cynnwys prawf modd ac mae'n sicrhau y gall holl ddisgyblion gael mynediad i addysg yn deg ac yn ddiogel. Bydd y rhan fwyaf o blant yn byw o fewn y pellter statudol o'u hysgol dalgylch agosaf a chyfrifoldeb y rhiant yw sicrhau bod eu plentyn yn teithio i'r ysgol yn ddiogel. Bydd y sawl sy'n byw y tu allan i'r pellter statudol i'w hysgol dalgylch neu ysgol agosaf yn derbyn cludiant o'r cartref i'r ysgol am ddim waeth beth fo'r ffactorau economaidd-gymdeithasol. |

**13. Sut mae'ch cynnig yn sicrhau eich bod yn gweithio yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, a bod pob cyfle'n cael ei gymryd i hyrwyddo'r Gymraeg (yn ychwanegol at ddarparu gwasanaethau dwyieithog) a hyrwyddo cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?**

| |
|---|
| Nid oes unrhyw ofyniad statudol i ddarparu cludiant i ysgol cyfrwng Cymraeg pan nad yr ysgol agosaf yw hi. Fodd bynnag, fel rhan o ymrwymiad CBSC i darparu addysg i blant drwy gyfrwng y Gymraeg, mae'r polisi cludiant o'r cartref i'r ysgol yn cynnwys meini prawf dewisol |

o "gludiant o'r cartref i'r ysgol am ddim i ddysgwyr oed ysgol gorfodol sy'n cwrdd â'r meini prawf pellter statudol i'r ysgol cyfrwng Cymraeg addas agosaf."

Mae'n ddyletswydd gyfreithiol ar Weinidogion Cymru i hybu mynediad i addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg. Mae'n rhaid i CBSC gymryd hyn i ystyriaeth wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar y Gymraeg.

Mae cludiant o'r cartref i'r ysgol ar gyfer tymor ysgol hefyd yn cael ei ddarparu i ddisgyblion sydd angen mynychu canolfan drochi Cymraeg i wella eu sgiliau Cymraeg.

Mae'r ymgynghoriad yn rhoi'r cyfle i ymatebwyr roi sylwadau ychwanegol i leisio unrhyw farn am yr hyn y mae'r gwasanaeth yn ei olygu iddynt neu sut y byddai unrhyw newidiadau i elfen ddewisol am ddim y polisi cludiant o'r cartref i'r ysgol yn effeithio arnynt hwy neu eu plant. Gallai hyn gael effaith gadarnhaol neu andwyol arnynt.

Ynghyd â'r adborth o'r ymgynghoriad, bydd blaenoriaethau corfforaethol a Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yr Awdurdod yn ffactorau mawr wrth ystyried cynigion ar gyfer unrhyw ddiwygiadau i feini prawf y polisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol.

**14. Beth yw effaith gronnus y cynnig hwn ar wahanol grwpiau a ddiogelir wrth ystyried penderfyniadau allweddol eraill a wneir gan y sefydliad sy'n effeithio ar y grwpiau hyn?**(Efallai y bydd angen i chi drafod hyn gyda'r Pennaeth Gwasanaeth neu Aelod Cabinet i ystyried yn ehangach a fydd y cynnig hwn yn effeithio ar grwpiau penodol yn waeth oherwydd penderfyniadau eraill y mae'r sefydliad yn eu gwneud, e.e. effaith ariannol / tlodi, tynnu nifer o wasanaethau yn ôl a p'un a yw hyn yn rhoi'r un grwpiau dan anfantais, e.e. pobl anabl, pobl hŷn, rhieni sengl (sy'n fenywod yn bennaf) ac ati)

Bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus yn ymgynghori ar feini prawf dewisol y polisi cludiant o'r cartref i'r ysgol a bydd yn hygyrch i bawb.

**15. Sut mae'r cynnig hwn yn cyflawni pob un o'r 7 nod yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 gan gynnwys creu Cymru sy'n fwy cyfartal? (Dylech grynhoi'r canfyddiadau os ydych eisoes wedi ystyried hyn fel rhan o'r broses sgrinio)**

Am fwy o wybodaeth, gweler: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

**16. Disgrifiwch unrhyw effaith negyddol a fwriedir ac esboniwch pam ydych yn credu bod hyn yn gyfiawn** (er enghraifft, ar sail hyrwyddo cyfle cyfartal neu feithrin perthnasoedd da rhwng y rheiny sy'n rhannu nodwedd a ddiogelir a'r rheiny nad ydynt oherwydd cyfiawnhad gwrthrychol [1] neu gam gweithredu cadarnhaol[2])

| |
|---|
| Y cysyniad y bydd CBSC yn gwneud newidiadau a all effeithio'n negyddol ar ddarpariaeth gwasanaeth presennol ac yn y dyfodol. Mae ymgynghoriad cyhoeddus yn rhan bwysig o'r broses gwneud penderfyniad. |

**Nodyn[1]: Cyfiawnhad Gwrthrychol** - yn darparu amddiffyniad ar gyfer defnyddio polisi, rheol neu arfer a fyddai fel arall yn cael ei ystyried yn wahaniaethu uniongyrchol neu anuniongyrchol anghyfreithlon, ac mae'n rhaid gallu dangos bod rheswm da dros lunio'r polisi neu'r rheol - sef ei fod 'yn fodd cymesur o gyflawni nod gyfreithlon'. **Nod cyfreithlon** yw'r rheswm y tu ôl i'r gwahaniaethu ac ni ddylai fod yn wahaniaethol ei hun ac mae'n rhaid iddo fod yn rheswm dilys neu go iawn, e.e. iechyd, diogelwch neu les unigolion. Os mai'r nod yn syml yw lleihau costau oherwydd bod gwahaniaethu yn rhatach, ni fydd hyn yn gyfreithlon. Ystyriwch a yw pwysigrwydd y nod yn gorbwyso unrhyw effeithiau gwahaniaethol sy'n gysylltiedig â'r driniaeth anffafriol, a gofalwch nad oes unrhyw fesurau eraill ar gael a fyddai'n cyflawni'r nod heb ormod o anhawster (cymesur) ac yn osgoi'r effaith wahaniaethol.

**Nodyn[2]: Gweithredu Cadarnhaol** – Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn caniatáu gweithredu cadarnhaol tuag at grŵp penodol os oes tystiolaeth digonol o angen. Er enghraifft, pan fo cyflogwr yn cymryd camau penodol i wella cydraddoldeb yn y gweithle i roi sylw i unrhyw anghydbwysedd rhwng cyfleoedd, i leihau anfantais neu gynyddu faint sy'n cyfrannu at weithgarwch penodol, drwy efallai gynyddu nifer y bobl anabl mewn swyddi uwch lle maent yn cael eu tangynrychioli wrth dargedu grwpiau penodol gyda hysbysebion swyddi neu gynnig hyfforddiant i helpu creu cyfleoedd i grwpiau penodol. Mae disgwyl i'r sector cyhoeddus ystyried defnyddio gweithredu positif i'w helpu i gydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

**17. A allai unrhyw un o'r effeithiau negyddol a nodwyd gael eu hystyried yn wahaniaethu anghyfreithlon ond yn ddi-osgoi (e.e. lleihad mewn cyllid)?**

Gallai ☐ Na ☒ Ansicr ☐ *(Cliciwch ddwywaith ar y blwch perthnasol (X) a dewiswch 'gwiriwyd' fel sy'n briodol)*

**18. Os ydych wedi ateb Ie neu Ansicr i gwestiwn 17, nodwch isod pa grŵp/grwpiau a ddiogelir y mae'n berthnasol iddynt ac esboniwch pam (gan gynnwys effaith neu effeithiau tebygol y newid arfaethedig hwn)**

| |
|---|
| Amh. |

**19. Os ydych wedi ateb Na i gwestiwn 17, a oes unrhyw rwystrau a nodwyd sy'n cael eu hystyried fel effaith wahaniaethol ar grwpiau penodol a beth ydyn nhw?**

| |
|---|
| **Na** |

## **CAM 3** – Caffael a Phartneriaethau

Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED) yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol ystyried anghenion nodweddion a ddiogelir wrth gynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys pan fydd hyn yn cael ei wneud ar y cyd â sefydliadau eraill neu drwy gaffael gwasanaethau. Mae Safonau'r Gymraeg hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod cyhoeddus ystyried effaith unrhyw benderfyniadau polisi neu newid o ran darpariaeth gwasanaeth, ar y Gymraeg, gan gynnwys unrhyw waith a wneir ar y cyd neu gan drydydd partïon. Mae'n rhaid i ni hefyd sicrhau ein bod yn ystyried y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol wrth gynllunio penderfyniadau caffael a chomisiynu mawr i ystyried sut y gall trefniadau fel hyn leihau anghydraddoldeb o ran canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol.

Wrth gaffael gwaith, nwyddau neu wasanaethau gan sefydliadau eraill (ar sail cytundeb perthnasol), mae'n rhaid i ni roi sylw dyledus i p'un a yw'n briodol :

- i'r meini prawf dyfarnu ar gyfer y contract hwnnw gynnwys ystyriaethau i helpu i gyflawni'r Ddyletswydd Gyffredinol (sef cael gwared ar wahaniaethu, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin perthnasoedd da);
- roi sylw dyledus i p'un a fyddai'n briodol nodi amodau yn ymwneud â pherfformiad y contract i helpu i fodloni tri nod y Ddyletswydd Gyffredinol.

Mae hyn yn berthnasol i drefniadau cytundebol sy'n "gytundebau perthnasol" yn unig sy'n golygu naill ai dyfarnu 'contract cyhoeddus' neu gwblhau 'cytundeb fframwaith', sydd ill dau yn cael eu rheoleiddio gan Gyfarwyddeb y Sector Cyhoeddus (Cyfarwyddeb 2004/18/EC) sy'n rheoleiddio trothwyon penodol yr UE. Mae mwy o wybodaeth yma:

Mae'n rhaid i ni ystyried sut y gall trefniadau felly wella cyfle cyfartal a lleihau anghydraddoldeb o ran canlyniadau oherwydd nodweddion a ddiogelir ac sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol, yn enwedig ar benderfyniadau caffael a chomisiynu mawr. Mae'r PSED yn berthnasol i'r gwaith a wneir gan sefydliadau'r sector preifat wrth ddarparu swyddogaeth gyhoeddus ar ein rhan. Gan hynny mae angen i ni sicrhau bod y sefydliadau hynny yn ymarfer y swyddogaethau hynny trwy sicrhau bod ein gwaith caffael a monitro ar gyfer y gwasanaethau hynny yn cydymffurfio â'r Ddyletswydd Gyffredinol o dan Adran 149 Deddf Cydraddoldeb 2010. Yn yr un modd, mae Safonau'r Gymraeg yn berthnasol i unrhyw waith a wneir ar ran ac yn enw cyrff cyhoeddus sydd ynddynt eu hunain yn gorfod cydymffurfio â'r Safonau. Gan hynny dylid rhoi ystyriaeth i sut mae'r gofynion hynny'n cael eu monitro a'u cyfathrebu trwy'r dogfennau caffael. Ni ellir trosglwyddo'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol ymlaen i drydydd parti trwy gaffael, comisiynu neu gontract allanol. Gan hynny, pan ydym yn gweithio mewn partneriaeth â chyrff nad yw'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol yn eu cwmpasu, dim ond i ni fel corff cyhoeddus perthnasol y mae'r ddyletswydd yn berthnasol.

**20. A fydd y polisi neu'r arfer hwn yn cael ei gyflawni'n llwyr neu'n rhannol gan gontractwyr neu mewn partneriaeth â sefydliad(au) arall / eraill?**

Gallai ☐ Na ☒ Ansicr *(Cliciwch ddwywaith ar y blwch perthnasol (X) a dewiswch 'gwiriwyd' fel sy'n briodol)*

Os ddim, ewch ymlaen i Gam 4

**21. Os bydd, pa gamau fyddwch yn eu cymryd i gydymffurfio â'r Ddyletswydd Gydraddoldeb Gyffredinol, Hawliau Dynol a Deddfwriaeth y Gymraeg a'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol o ran caffael a/neu partneriaethau? Meddyliwch am:**

**Caffael**

- Gosod allan disgwyliadau cydraddoldeb clir mewn dogfennau Tendro a Manylebau, gan ddangos sut y gellir cynnwys hyrwyddo cydraddoldeb mewn prosiectau caffael unigol.
- Ar beth ydych yn seilio eich penderfyniadau yn y broses ddyfarnu, gan gynnwys ystyried cyflogaeth foesegol a chod ymarfer cadwyn gyflenwi.
- Sicrhau bod cymalau mewn contractau yn cwmpasu Rheoliadau Deddf Gydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 a gofynion economaidd-gymdeithasol yn ogystal â Dyletswyddau'r Gymraeg (cofiwch fod unrhyw ddyletswyddau o Fesur y Gymraeg 2011 a Safonau'r Gymraeg hefyd yn berthnasol i wasanaethau a ddarperir ar eich rhan o dan gontract gyda chyrff allanol).
- Bod mesurau Perfformio a Monitro wedi'u cynnwys i fonitro cydymffurfiaeth, rheoli a gorfodi contractau

**Partneriaethau**

Bod yn glir ynglŷn â phwy sy'n gyfrifol am:

- Fonitro Cydraddoldeb data perthnasol
- Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb
- Cyflawni'r camau gweithredu sy'n deillio o'r AEG
- Sicrhau bod pob partner yn cydymffurfio â deddfwriaeth cydraddoldeb, hawliau dynol a'r Gymraeg
- Dangos sylw dyledus i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol

| |
|---|
| |

## Cam 4 – Delio gydag Effaith Niweidiol neu Anghyfreithlon a Chryfhau'r Polisi neu'r Arfer

22. **Wrth ystyried cymesuredd, a yw'r polisi neu'r arfer yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol arwyddocaol neu a yw'n creu anghydraddoldeb o ran canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol?**(Rhowch fanylion)

| **Effaith gadarnhaol arwyddocaol** | **Effaith negyddol arwyddocaol** |
|---|---|
| Nid oes unrhyw effaith gadarnhaol sylweddol ar gyfer yr ymgynghoriad. | Nid oes unrhyw effaith negyddol sylweddol ar gyfer yr ymgynghoriad. |

| | |
|---|---|
| | |
| | |

**23. Mae'n bwysig eich bod yn cofnodi'r camau lliniaru y byddwch yn eu cymryd wrth ddatblygu eich polisi terfynol / arfer drafft. Cofnodwch yma ba fesurau neu newidiadau y byddwch yn eu cyflwyno i'r polisi neu'r arfer yn y drafft terfynol a allai leihau neu gael gwared ar unrhyw effaith anghyfreithlon neu negyddol neu anfantais a/neu wella cyfle cyfartal / cyflwyno newid cadarnhaol; neu leihau anghydraddoldeb o ran canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol?**(Gallai hyn hefyd fod yn sail i'r Cynllun Gweithredu yn C34)

| Effaith Anghyfreithlon neu Negyddol a Nodwyd | Camau Lliniaru / Cadarnhaol a gymerir yn y Polisi / Arfer | Cwblhawyd (✓) |
|---|---|---|
| Amh. | | |
| | | |
| | | |

**24. A fydd y mesurau hyn yn cael gwared ar unrhyw effaith anghyfreithlon neu anfantais?**

Byddant Na fyddant ☐ (Cliciwch ddwywaith ar y blwch perthnasol (X) a dewiswch 'gwiriwyd' fel sy'n briodol)

**25. Os ddim, pa gamau allech chi eu cymryd i gyflawni'r un nod mewn dull gwahanol?**

| |
|---|
| Does dim angen gwneud unrhyw beth arall. |

**26. Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer er mwyn ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i Ddyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus? (I hyrwyddo cyfle cyfartal; helpu i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon a meithrin cysylltiadau da a chydlyniant cymunedol ehangach; fel y mae'r 3 nod yn ei gwmpasu o'r Ddyletswydd Gyffredinol yn Neddf Cydraddoldeb 2010)**

| |
|---|
| Amh. |

**27.** **Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i leihau anghydraddoldebau canlyniad o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol?**

| |
|---|
| Amh. |

**28.** **Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos eich bod wedi dilyn ystyriaethau deddfwriaethol pwysig i gynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a lleihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gall y polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?**

| |
|---|
| Bydd holl ddogfennaeth/ymgynghori yn ddwyieithog. Bydd gohebiaeth gyda swyddogion ar gael yn y Gymraeg. |

**29.** **A oes gennych ddigon o wybodaeth i wneud dyfarniad gwybodus?**

Oes Nac oes ☐ *(Cliciwch ddwywaith ar y blwch perthnasol (X) a dewiswch 'gwiriwyd' fel sy'n briodol)*

**30.** **Os ydych wedi ateb Oes, cyfiawnhewch hyn:**

| |
|---|
| |

**31.** **Os ydych wedi ateb Nac oes, pa wybodaeth sydd ei hangen arnoch a beth sydd angen i chi ei wneud i ddod i benderfyniad?**
(Sylwer: A ddylid cynnwys casglu data yn y cynllun gweithredu (Cam 6)?)

| |
|---|
| Roedd papur dewis a gyflwynwyd i'r Cabinet yn yr Hydref 2023 yn cymeradwyo ymgynghoriad ar feini prawf dewisol. Yn dilyn yr ymgynghoriad, bydd argymhelliad unrhyw newidiadau yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet cyn Medi 2024. Bydd gweithredu unrhyw newidiadau yn dechrau ym mis Medi 2025. |

**[Efallai y bydd angen i chi oedi yma nes i chi gael gafael ar y wybodaeth ychwanegol]**

## **Cam 5** – Penderfyniad i Fwrw Ymlaen

**32.** **Gan ddefnyddio'r wybodaeth rydych wedi'i chasglu yng nghamau 1 - 4 uchod, nodwch ar y tabl isod a oes modd i chi fwrw ymlaen â'r polisi neu'r arfer ac os felly, ar ba sail?**

*(Cliciwch ddwywaith ar y blwch perthnasol (X) a dewiswch 'gwiriwyd' fel sy'n briodol)*

| **Penderfyniad** | |
|---|---|
| ☐ Ydy | Parhau â'r polisi neu'r arfer ar ei ffurf bresennol |
| ☐ Ydy | Parhau â'r polisi neu'r arfer ond gydag addasiadau i wella neu gael gwared ar unrhyw feysydd a fyddai'n cael effaith niweidiol, fel y nodwyd yng Ngham 4 |
| ☐ Ydy | Parhau â'r cynllun gan y gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol |
| ☐ Na | Peidio â pharhau â'r polisi neu'r arfer gan nad yw'n bosibl mynd i'r afael â'r effaith niweidiol. Ystyried ffyrdd eraill o fynd i'r afael â'r materion. |

**33. A oes unrhyw argymhellion terfynol mewn perthynas â chanlyniad yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb dan sylw?**

| |
|---|
| |

## CAM 6 – Camau Gweithredu a Threfniadau ar gyfer Monitro Canlyniadau ac Adolygu Data

Mae proses yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb yn un barhaus nad yw'n dod i ben pan gytunir ar bolisi/arfer a phan gytunir ar yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a'i roi ar waith. Mae dyletswydd gyfreithiol benodol i fonitro effaith polisïau / arferion ar gydraddoldeb yn barhaus i nodi a yw'r canlyniadau wedi newid ers i chi gyflwyno neu ddiwygio'r polisi neu'r arfer newydd hwn. Os nad ydych yn cadw data perthnasol, dylech gymryd camau i unioni hyn yn eich cynllun gweithredu. I adolygu canllawiau EHRC ar gasglu data gallwch adolygu eu Fframwaith Mesur.

**34. Amlinellwch isod unrhyw <u>gamau</u> a nodwyd yng Nghamau 1-5 neu unrhyw ddata ychwanegol a fydd yn eich helpu i fonitro eich polisi/arfer unwaith y bydd yn cael ei weithredu:**

| **Cam Gweithredu** | **Dyddiadau** | **Amserlen** | **Cyfrifoldeb Arweiniol** | **Ychwanegu at y Cynllun Gwasanaeth (✓)** |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | | | | |

**35. Amlinellwch isod pa drefniadau y byddwch yn eu gwneud i <u>fonitro ac adolygu</u> effaith barhaus y polisi neu'r arfer hwn gan gynnwys amserlenni ar gyfer pryd y dylid ei adolygu'n ffurfiol:**

| **Trefniadau Monitro ac Adolygu**<br>(gan gynnwys ble bydd canlyniadau'n cael eu cofnodi) | **Amserlen ac Amlder** | **Cyfrifoldeb Arweiniol** | **Ychwanegu at y Cynllun Gwasanaeth (✓)** |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |

## CAM 7 - Cyhoeddi'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Trefnwch i'ch Pennaeth Gwasanaeth/Adran gytuno ar yr AEG ar ôl ei gwblhau, a threfnwch i'w gyfieithu a'i gyhoeddi ac anfonwch gopi at y Swyddog Cydraddoldeb.